

# Negodiadau ar ymadawiad y **DU â'r UE**

## Adroddiad Monitro Brexit

18 Medi 2019



Y Cynulliad <sup>a</sup>

**BREXIT**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE

## Adroddiad Monitro Brexit

18 Medi 2019

**Awduron:**  
Sara Moran

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: [Sara.Moran@Cynulliad.Cymru](mailto:Sara.Moran@Cynulliad.Cymru)

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/ymchwil-y-senedd)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Y Cynulliad

BREXIT

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
Amserlen.....	1
<b>2. Datblygiadau yn San Steffan .....</b>	<b>3</b>
Prif Weinidog newydd y DU.....	3
Prif Weinidog newydd y DU a'r Cytundeb Ymadael.....	3
Adoedi Senedd y DU.....	5
Ymateb y gweinyddiaethau datganoledig i addoedi .....	6
Camau a gymerwyd gan y gwrthbleidiau .....	7
Etholiad cyffredinol .....	8
Adolygiad o Alluogrwydd Undeb Llywodraeth y DU .....	8
Arall .....	10
<b>3. Datblygiadau ym Mrwsel .....</b>	<b>11</b>
Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd.....	11
Parodrwydd dim cytundeb yr UE .....	11

<b>4. Datblygiadau yng Nghymru.....</b>	<b>13</b>
Cyllid ar ôl Brexit .....	13
Cysylltiadau rhynglywodraethol .....	14
Rhyngwladol .....	15
Dinasyddion yr UE.....	17
Fframweithiau Cyffredin.....	17
Parodrwydd dim cytundeb .....	18
Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor ar flaenoriaethau Brexit.....	19
<b>5. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol .....</b>	<b>20</b>
Fforwm Rhyngseneddol .....	20

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE. Mae'n cynnwys cyfnod toriad yr haf a dechrau tymor yr hydref hyd at addoedi Senedd y DU ar 10 Medi. Fel y cyfryw, mae'n rhifyn hwy na'n hadroddiad blaenorol, **Brexit ac Addoedi Senedd y DU**, a gyhoeddwyd ar 4 Medi. Mae'r adroddiad hwnnw'n darparu crynodeb o ddatblygiadau a chafodd ei lunio cyn i'r Cynulliad gael ei adalw ar 5 Medi.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Amserlen o'r dyddiadau arwyddocaol sy'n weddill tan 31 Hydref pan ddisgwylir i'r DU adael yr UE;
- Dadansoddiad manwl o'r datblygiadau allweddol yn San Steffan a Brwsel;
- Dadansoddiad o ymateb Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r datblygiadau diweddaraf;
- Meysydd ychwanegol o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

### Amserlen

Rhestrir isod y dyddiadau arwyddocaol sydd i ddod cyn 31 Hydref:

#### Medi

10 Medi - 14 Hydref: Senedd y DU wedi'i haddoedi

16 Medi: Tymor hydref Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17 Medi: Achos addoedi Senedd y DU yn y Goruchaf Lys

Drwy gydol mis Medi: Mae negodwyr y DU a'r UE wedi **cytuno i gyfarfod ddwywaith bob wythnos**

#### Hydref

Dydd Llun 14: Agoriad Swyddogol y Senedd, gan gynnwys Araith y Frenhines

Dydd Iau 17 - dydd Gwener 18: Uwchgynhadledd Cyngor yr UE



Dydd Sadwrn 19: Gofynion Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 2) 2018 ar Lywodraeth y DU i ofyn am estyniad i gyfnod negodi Erthygl 50 os nad oes cytundeb wedi'i chytuno gyda'r UE

Dydd Llun 21 - dydd Mawrth 22: Cyfres bosibl o bleidleisiau yn Senedd y DU ar Araith y Frenhines; gallai Aelodau Seneddol hefyd bleidleisio ar gytundeb Brexit, os cytunir ar un rhwng y DU a'r UE yn Uwchgynhadledd Cyngor yr UE. Os bydd Senedd y DU yn pleidleisio i gymeradwyo cytundeb, bydd angen i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) gael ei basio rhwng y dyddiad hwn ac 31 Hydref er mwyn iddo ddod i rym

Dydd Iau 31 Hydref: Disgwylir i'r DU adael yr UE

## 2. Datblygiadau yn San Steffan

### Prif Weinidog newydd y DU

#### Prif Weinidog a Chabinet newydd y DU

Ar 24 Gorffennaf, daeth Boris Johnson yn Brif Weinidog y DU **ar ôl ennill 66 y cant** o bleidlais aelodaeth y Blaid Geidwadol. Yn ystod yr ornest arweinyddiaeth, addawodd y byddai'r DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref **'doed a ddelo'**. **Cyhoeddwyd Cabinet newydd** ar 25 Gorffennaf. Sefydlodd Prif Weinidog y DU **ddau Bwyllgor Cabinet Brexit** i gefnogi paratodau ar gyfer Brexit heb gytundeb - un Pwyllgor Strategaeth Ymadael (i wneud penderfyniadau Brexit allweddol) ac un Pwyllgor Gweithrediadau Dyddiol (ar gyfer paratodau dim cytundeb). Mewn ymateb i gyhoeddi'r **Cabinet newydd**, y dywedodd **Mark Drakeford, y Prif Weinidog**, ei fod yn ofni bod Prif Weinidog y DU wedi 'gadael y tir canol' yn ei ddewis o benodiadau. Mae hefyd wedi mynegi pryderon bod y bwlch rhwng blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi 'cynyddu dros y 24 awr ddiwethaf'.

### Prif Weinidog newydd y DU a'r Cytundeb Ymadael

Yn **ei araith gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU**, ei fwriad i ailnegodi'r Cytundeb Ymadael heb 'backstop' Iwerddon:

If an agreement is to be reached, it must be clearly understood that the way to the deal goes by way of the abolition of the backstop. For our part, we are ready to negotiate, in good faith, an alternative, with provisions to ensure that the Irish border issues are dealt with where they should always have been: in the negotiations on the future agreement between the UK and the EU.

Yn ddiweddarach, dywedodd y canlynol:

I want to make one point on which I think we are all agreed: under no circumstances will there be physical infrastructure or checks at the Northern Irish border. That is absolutely unthinkable.

Mewn cynhadledd i'r wasg ar y cyd ag Angela Merkel, Canghellor yr Almaen, ar 21 Awst, **cytunodd Prif Weinidog y DU** mai'r DU sy'n gyfrifol am ddarparu atebion eraill, ymarferol i backstop Iwerddon a'i fod yn fwy na bodlon ar yr amserlen 30 diwrnod a awgrymwyd gan Canghellor yr Almaen i wneud hynny.

Ar 30 Awst, dywedodd **Prif Weinidog y DU y canlynol wrth y BBC**:

The weird thing is, the more the parliamentarians try to block the no-deal Brexit, the more likely it is that we'll end up in that situation. So the best thing now is for us to get on and make our points to our European friends with clarity and with vigour, and that's what we are doing.

Ailadroddwyd y safbwynt hwn mewn cyfweiliad â'r **Sunday Times** ar 1 Medi.

## Ymateb yr UE

Siaradodd Prif Weinidog y DU a Jean-Claude Juncker, Llywydd Comisiwn yr UE, dros y ffôn ar 27 Awst. Crynhowyd y sgwrs gan **lefarodd ar ran Llywydd y Comisiwn** :

President Juncker repeated his willingness to work constructively with Prime Minister Johnson and to look at any concrete proposals he may have, as long as they are compatible with the Withdrawal Agreement. President Juncker underlined that the EU27's support for Ireland is steadfast and that the EU will continue to be very attentive to Ireland's interests.

Finally, he recalled that while the EU is fully prepared for a 'no-deal' scenario, it will do everything it can to avoid such a situation. A 'no-deal' scenario will only ever be the UK's decision, not the EU's.

Roedd Llywydd Jean-Claude Juncker **wedi dweud** wrth Brif Weinidog y DU o'r blaen fod yr UE yn barod i ychwanegu at y Datganiad Gwleidyddol a dadansoddi syniadau a gyflwynir gan y Deyrnas Unedig, ar yr amod eu bod yn gydnaws â'r Cytundeb Ymadael, yn ystod eu galwad ffôn gyntaf ar 25 Gorffennaf.

Ar 1 Medi, **dywedodd Michel Barnier** nad oedd yn obeithiol ynghylch osgoi dim cytundeb ac y byddai angen i'r DU a'r UE ddatrys yr un materion ar ôl 31 Hydref beth bynnag. Mewn erthygl yn y Sunday Telegraph, dywedodd y canlynol:

On the EU side, we had intense discussions with EU member states on the need to guarantee the integrity of the EU's single market, while keeping that border fully open. In this sense, the backstop is the maximum amount of flexibility that the EU can offer to a non-member state. The EU is ready to explore all avenues that the UK government may present and that are compatible with the withdrawal agreement.

Mae **dogfen parodrwydd dim cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd** a gyhoeddwyd ar 4 Medi yn ailddatgan safbwynt yr UE:

The backstop provided for by the Withdrawal Agreement is the only solution identified that safeguards the Good Friday Agreement, ensures compliance with international law obligations and preserves the integrity of the internal market.

## Ymateb Cymru/Yr Alban

Ar 25 Gorffennaf, mewn **llythyr ar y cyd** a oedd hefyd yn galw am ail refferendwm, galwodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i Brif Weinidog newydd y DU ddiystyru Brexit heb gytundeb, gan nodi'r canlynol:

Byddai'n gwbl afresymol i Lywodraeth y DU ystyried anhrefn llwyr ymadael heb gytundeb, ac rydym yn pwysu arnoch i ymwrthod â'r posibilrwydd hwn mewn ffordd bendant a diamwys cyn gynted â phosib.

Ar 1 Medi, **cyhoeddodd Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, ei gefnogaeth** i her gyfreithiol Gina Miller tuag at addoedi Senedd y DU (gweler adran 1.3 isod), gan nodi'r canlynol:

Mae gan Aelodau'r Cynulliad yma yng Nghymru rôl hanfodol hefyd o ran cynghori'r Senedd ar sut y bydd Brexit heb gytundeb yn effeithio ar elfennau craidd yr economi a chymunedau yng Nghymru. Ni ellir gwneud hyn os yw'r Prif Weinidog wedi torri'r llinellau cyfathrebu.

**Cadarnhaodd yn ddiweddarach** fod Llywodraeth Cymru wedi cael caniatâd i ymyrryd yn yr achos cyfreithiol ac wedi cyflwyno cyflwyniadau sy'n 'angenrheidiol, yn briodol ac yn gymesur i amddiffyn buddiannau Cymru o ran sicrhau bod y Senedd yn cael eistedd'.

## Addoedi Senedd y DU

Ar 28 Awst, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU y byddai Senedd y DU yn cael ei haddoedi ar ôl gwneud cais i'w Mawrhydi'r Frenhines. Mewn **llythyr at Aelodau Seneddol**, esboniodd Prif Weinidog y DU y byddai'r addoediad o'r ail wythnos eistedd yn Senedd y DU (yr wythnos yn dechrau ar 9 Medi) tan 14 Hydref. **Cafodd Senedd y DU ei haddoedi** yn ystod oriau mân dydd Mawrth 10 Medi.

## Heriau cyfreithiol

Dechreuwyd tair her gyfreithiol yn erbyn penderfyniad Prif Weinidog y DU:

1. Dygwyd gwrandawriad yn **Llys y Sesiwn** yn yr Alban ymlaen i 3 Medi **yn dilyn dyfarniad** ar 30 Awst. Mae'r achos, sydd dan arweiniad grŵp o 75 o seneddwyd ac yn cael ei gefnogi gan **Good Law Project**, yn herio cyfreithlondeb a chyfansoddiadoldeb cais Prif Weinidog y DU i addoedi Senedd y DU. Ar 4 Medi, **gwrthododd y Llys** yr her gyfreithiol. Apeliwyd yn erbyn y penderfyniad.

- Gwrandawyd yr **ail achos** yn **Uchel Lys Cymru a Lloegr** ar 5 Medi. Cafodd ei gyflwyno gan yr ymgyrchydd Gina Miller. Rhoddwyd caniatâd i **Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Syr John Major, cyn-Brif Weinidog**, a'r Farwnes Shami Chakrabarti, Twrnai Cyffredinol yr Wrthblaid, ymyrryd i gefnogi'r achos. Mae'r achos yn herio'r cyngor a roddwyd gan Brif Weinidog y DU i'r Frenhines yn ystod ei gais i addoedi Senedd y DU drwy adolygiad barnwrol. Gwrthododd y Llys yr her gyfreithiol, penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn.
- Mae'r trydydd achos yn cynnwys cais i'r **Uchel Lys yn Belfast** ddyfarnu a yw addoedi'n torri Cytundeb Gwener y Groglith/Belfast.

**Adroddodd y Guardian** ar 5 Medi y disgwylir i'r tair her gyfreithiol gael eu huno a'u gwrandao yn y Goruchaf Lys ar 17 Medi.

### Ymateb y gweinyddiaethau datganoledig i addoedi

Ar 28 Awst, gan ymateb i gyhoeddi'r addoediad, **trydarodd y Prif Weinidog y canlynol**:

Fe ymladdodd Boris Johnson ymgyrch refferendwm i roi grym yn ôl yn nwylo'r Senedd. Nawr mae'n gofyn i'r Frenhines gau'r drws ar ein democratiaeth. Mae honiadau'r ymgyrch Ymadael yn dadfeilio. Mae'n bryd rhoi'r mater yn ôl i'r bobl.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit **ar 28 Awst** fod atal Senedd y DU dros dro yn 'gam cwbl sinigaidd ac yn annemocrataidd yn ei hanfod, sy'n ymgais i rwystro @UKParliament rhag trafod a phenderfynu ar gwestiwn gwleidyddol pwysicaf ein hoes'.

Hefyd ar 28 Awst **gofynnodd y Prif Weinidog** i'r Llywydd adalw'r Cynulliad i'w alluogi i 'drafod yr argyfwng cyfansoddiadol sydd bellach yn wynebu Cymru a'r Deyrnas Unedig'. Derbyniodd y Llywydd y cais hwn, **gan nodi'r canlynol**:

Rydym ar dir cyfansoddiadol digynsail ac, am fod Senedd y DU yn ailymgynnull yr wythnos nesaf, mae'n fater o egwyddor seneddol y dylai Aelodau'r Cynulliad hefyd gael y cyfle i siarad ar ran eu hetholwyr ar bwnc o'r fath arwyddocâd.

Mynegodd Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban, feirniadaeth hefyd o'r penderfyniad i addoedi'r Senedd, gan ddweud **ar 28 Awst** nad yw'n ddemocrataidd, a'i fod yn ymwneud â chyfyngu ar unrhyw allu sydd gan Senedd y DU i atal Brexit heb gytundeb. Mae **amseroedd toriad** Senedd yr Alban yn wahanol i'r Cynulliad, gyda thoriad yr haf rhwng 30 Mehefin ac 1 Medi yn yr Alban ac 22 Gorffennaf tan 15 Medi yng Nghymru. Dechreuodd Senedd yr Alban ei thymor hydref ar 2 Medi.

## Camau a gymerwyd gan y gwrthbleidiau

### Datganiad Church House

Ar 27 Awst, cyfarfu arweinwyr y gwrthbleidiau i drafod camau gweithredu a cheisio atal Brexit heb gytundeb, yn dilyn **llythyr gan Jeremy Corbyn** ar 21 Awst. Ar ôl y cyfarfod, **cyhoeddwyd datganiad ar y cyd** gan arweinwyr y gwrthbleidiau. Amlinellodd hyn y byddent yn gweithio gyda'i gilydd i chwilio am ffyrdd ymarferol o atal Brexit heb gytundeb drwy basio deddfwriaeth neu drwy bleidlais o ddiffyg hyder.

Hefyd ar 27 Awst, llofnododd dros 200 o Aelodau Seneddol **Ddatganiad Church House** yn gwrthwynebu Brexit heb gytundeb. Mae'r datganiad yn nodi'r canlynol:

Shutting down Parliament would be an undemocratic outrage at such a crucial moment for our country, and a historic constitutional crisis.

Any attempt to prevent Parliament sitting, to force through a no deal Brexit, will be met by strong and widespread democratic resistance.

We pledge to work together across parties and across our nations to do whatever is necessary to ensure that the people's voice is able to be heard.

### Yn Senedd y DU

Pleidleisiodd Aelodau Seneddol i gymryd rheolaeth o'r agenda seneddol ddydd Mawrth 3 Medi **o 328 i 301** o bleidleisiau, gan ddefnyddio cynnig dadl frys **a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 24**. Galluogodd y bleidlais gyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU osgoi dim cytundeb. Mae **Deddf yr Undeb Ewropeidd (Ymadael) (Rhif 2) 2019** yn rhoi cyfle:

- i Lywodraeth y DU ddod i gytundeb â'r UE yng nghyfarfod Cyngor yr UE ar 17-18 Hydref, neu;
- i gael cydsyniad Senedd y DU os na fydd yn dod i gytundeb.
- os na fodlonir y naill amod na'r llall, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog y DU anfon llythyr penodol (a gynhwysir yn y Ddeddf) ar 19 Hydref i Gyngor yr UE yn gofyn am estyniad arall i gyfnod Erthygl 50 tan 31 Ionawr 2020.
- mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Brif Weinidog y DU i dderbyn cynnig estyniad Cyngor yr UE ar unwaith, gan gynnwys derbyn dyddiad arall a awgrymir gan yr UE. Mae'n rhaid derbyn dyddiad arall o fewn dau ddiwrnod oni bai bod Tŷ'r Cyffredin yn gwrthod hyn.



Pasiwyd y ddeddfwriaeth o **327 o bleidleisiau i 299** ddydd Mercher 4 Medi.

Ar 9 Medi, caniatwyd ail ddadl frys ynghylch **datgelu negeseuon** yn ymwneud ag addoedi. Pasiwyd y cynnig cysylltiedig o 311 o bleidleisiau i 302. Mae'r cynnig yn cyfarwyddo'r Gweinidog i ddarparu'r canlynol i Senedd y DU:

- pob neges yn ymwneud ag addoedi a anfonwyd neu a gafwyd gan unigolion rhestredig ers 23 Gorffennaf erbyn 11pm ar 11 Medi;
- holl ddogfennau ymgyrch Yellowhammer Llywodraeth y DU a gyflwynwyd i'r Cabinet neu Bwyllgor Cabinet. Ymgyrch Yellowhammer yw'r enw a roddwyd ar waith cynllunio wrth gefn dim cytundeb.

### Etholiad cyffredinol

Yn dilyn canlyniadau'r bleidlais ddydd Mawrth 3 Medi, **dywedodd Prif Weinidog y DU** y bydd yn rhaid i bobl y wlad hon ddewis pwy sy'n teithio i gyfarfod nesaf Cyngor yr UE ar 17 Hydref i gynrychioli'r DU:

*If MPs vote tomorrow to stop negotiations and to compel another pointless delay to Brexit, potentially for years, then that would be the only way to resolve this and I can confirm that we are tonight tabling a motion under the Fixed Term Parliaments Act.*

Mae'r **cynnig** a gyflwynwyd gan y Prif Weinidog yn darllen fel a ganlyn:

*That there shall be an early parliamentary general election.*

Mae **Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011** yn ei gwneud yn ofynnol bod gan Brif Weinidog y DU gefnogaeth dwy ran o dair o Aelodau Seneddol er mwyn pasio'r cynnig. Methodd y cynnig **o 298 o bleidleisiau i 56**, gyda **288 yn atal pleidlais**. Cyflwynodd Prif Weinidog y DU **yr un cynnig** am yr ail dro ar 9 Medi, gan ddatgan y byddai'n well ganddo fod **yn farw mewn ffos** na gofyn am estyniad arall i Erthygl 50. Cytunodd y gwrthbleidiau **ymlaen llaw i wrthod** y cynnig **yn ystod sgysiau trawsbleidiol** i drafod amseriad etholiad cyffredinol. **Methodd y cynnig**, gan gael 293 o bleidleisiau o'i blaid a 46 yn ei erbyn.

### Adolygiad o Alluogrwydd Undeb Llywodraeth y DU

Ar 4 Gorffennaf, **cyhoeddodd Theresa May, y cyn-Brif Weinidog, adolygiad datganoli**, dan arweiniad yr **Arglwydd Andrew Dunlop**:

*There have been several reviews into how devolution works. But we have never thought deeply about how we make the Union work – how we ensure that as we fully respect devolution, we do not forget the UK Government's fundamental duty to be a government for the whole United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.*

Mae **cylch gorchwyl** yr adolygiad yn nodi mai diben yr Adolygiad yw:

*To consider whether UK Government structures are configured in such a way as to strengthen the working of the Union, and to recommend changes where appropriate.*

*In examining the above terms of reference, the reviewer should take into account the following:*

- ◆ *The need to respect and support the current devolution settlements, including the Scotland, Wales and Northern Ireland Acts, as well as the Belfast agreement and its successors.*
- ◆ *The importance of Scotland, Wales and Northern Ireland retaining their own Secretaries of State who are members of Cabinet and Territorial Offices that represent the interests of the devolved nations in Westminster; and*
- ◆ *That the question of the Barnett Formula and the Scottish and Welsh Governments' fiscal frameworks are out of scope for this review.*

Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Gorffennaf ac yn gorffen gydag adroddiad i Brif Weinidog y DU yn hydref 2019. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad cychwynnol, rhybuddiodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog, **mai'r peth olaf sydd ei angen nawr yw 'twf mewn gwladychiaeth'**. Cadarnhaodd yn ddiweddarach i **Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael dim rhybudd ymlaen llaw o gyhoeddi'r adolygiad gan Brif Weinidog y DU. Hefyd, dywedodd Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, wrth y Cynulliad y byddai cylch gorchwyl yr adolygiad wedi bod yn '[g]ryfach ac yn fwy defnyddiol' pe bai Llywodraeth Cymru wedi cael ymgysylltiad ymlaen llaw:

*Yr hyn sydd ei angen i gryfhau'r undeb yw gwell cysylltiadau a gwell peirianwaith rhwng Llywodraethau'r Deyrnas Unedig, nid cryfhau'r swyddfeydd tiriogaethol.*

Mae'r adolygiad ar wahân i'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol a gomisiynwyd gan y Cyd-bwyllgor Gweinidogol rhwng Llywodraethau'r DU ym mis Mawrth 2018. Y diwrnod cyn cyhoeddiad Prif Weinidog y DU, roedd **Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi ysgrifennu ar y cyd at Lywodraeth y DU** gan fynegi siom ynghylch y cynnydd cyfyngedig a wnaed hyd yn hyn ar yr adolygiad.



## Arall

### Stephen Barclay a diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972

Ar 18 Awst, **llofnododd** Stephen Barclay, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, ddeddfwriaeth yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, gan nodi'r canlynol:

The ECA saw countless EU regulations flowing directly into UK law for decades, and any government serious about leaving on October 31 should show their commitment to repealing it.

That is what we are doing by setting in motion that repeal. This is a landmark moment in taking back control of our laws from Brussels.

Bydd y diddymiad **yn dod i rym** os bydd y DU yn gadael yr UE yn ffurfiol ar 31 Hydref.

### Adolygiad Gwariant 2019

Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys **adolygiad gwariant 2019** ar 4 Medi.

Cynhwysodd yr adolygiad £2 biliwn yn 2020-21 er mwyn helpu'r DU i sefydlu perthynas newydd â'r UE, a manteisio ar y cyfleoedd a grëir yn sgil Brexit. Gweler **erthygl blog y Gwasanaeth Ymchwil**, Pigion, ar y mater i gael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ac adran 4 o'r adroddiad hwn ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru.

## 3. Datblygiadau ym Mrwsel

### Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd

Etholwyd Ursula von der Leyen, cyn-Weinidog Amddiffyn yr Almaen, **yn Llywydd newydd y Comisiwn Ewropeaidd** ar 16 Gorffennaf. Bydd yn olynu Jean-Claude Juncker ar 1 Tachwedd am dymor pum mlynedd ochr yn ochr â thîm arweinyddiaeth wleidyddol y Comisiwn (sy'n cynnwys un Comisiynydd o bob Aelod-wladwriaeth a **gyhoeddwyd ar 10 Medi**). Ar 25 Gorffennaf, **cadarnhaodd Prif Weinidog y DU** na fyddai'r DU yn enwebu Comisiynydd, gan nodi'r canlynol:

Indeed, today there are very many brilliant UK officials trapped in meeting after meeting in Brussels and Luxembourg, when their talents could be better deployed in preparing to pioneer new free trade deals or promoting a truly global Britain. I want to start unshackling our officials to undertake this new mission right away, so we will not nominate a UK commissioner for the new Commission taking office on 1 December—under no circumstances—although clearly that is not intended to stop the EU appointing a new Commission.

Mae **Prif Weinidog y DU wedi cadarnhau** y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i pherthynas â Llywydd newydd y Comisiwn Ewropeaidd, ni waeth am ganlyniad Brexit.

### Parodrwydd dim cytundeb yr UE

Ar 4 Medi, cyhoeddodd Comisiwn yr UE ei chweched neges ar baratodau dim cytundeb. Mae'r **ddogfen ddiweddaraf**, a gyhoeddwyd ar 4 Medi 2019, yn nodi'r canlynol:

In a 'no-deal' scenario, the UK will become a third country without any transitional arrangements.

All EU primary and secondary law will cease to apply to the UK from that moment onwards.

There will be no transition period, as provided for in the Withdrawal Agreement.

This will obviously cause significant disruption for citizens and businesses and would have a serious negative economic impact, which would be proportionally much greater in the United Kingdom than in the EU27 Member States.

Mae'r ddogfen yn crynhoi'r paratodau a wnaed gan y Comisiwn ers mis Rhagfyr 2017:

- Cyflwyno **19 o gynigion deddfwriaethol** a fabwysiadwyd wedi hynny gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd;
- Mabwysiadu **63 o ddeddfau anneddfwriaethol**;
- Cyhoeddi **100 o hysbysiadau parodrwydd**;
- Sefydlu **canolfan alwadau ar gyfer Aelod-wladwriaethau** i gysylltu i gael mynediad cyflym at arbenigedd y Comisiwn;
- Sefydlu **rhif rhadffon ar gyfer ymholiadau dinasyddion**, y gellir ei ddefnyddio o unrhyw le ar draws 27 gwlad yr UE mewn unrhyw un o ieithoedd swyddogol yr UE.

**Cadarnhaodd** y Comisiwn hefyd ei fod yn ehangu cwmpas Cronfa Gydsfyll yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y baich ariannol difrifol y gallai dim cytundeb ei beri i Aelod-wladwriaethau. Fel arfer, mae'r gronfa yn **cael ei chadw** ar gyfer sefyllfaoedd brys ar ôl trychinebau naturiol mawr.

## 4. Datblygiadau yng Nghymru

### Cyllid ar ôl Brexit

#### Adolygiad Gwariant Blwyddyn

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU am adolygiad gwariant blwyddyn ar 9 Awst, cyhoeddwyd **adolygiad gwariant blwyddyn** i baratoi at Brexit. Yn ôl **Llywodraeth Cymru**:

Ar sail cyhoeddiad heddiw bydd Cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2020-21 2% yn is nag yn 2010-11. Felly, nid yw cyllid ychwanegol heddiw hyd yn oed yn troi ein pŵer gwario ni yn ôl i lefelau degawd yn ôl.

Yn ei datganiad ar yr adolygiad, dywedodd y Gweinidog Cyllid y canlynol:

Heddiw Cyhoeddodd y Canghellor swm pellach o £2bn yn 2020-21 ar gyfer cyflawni Brexit. Buom yn glir nad oes modd cyflawni'r cymorth i fynd i'r afael ag elfen hyd yn oed o effaith Brexit heb gynnydd llawer mwy sylweddol mewn gwariant cyhoeddus. Bydd angen cyllid a hyblygrwydd ychwanegol sylweddol er mwyn inni allu ymateb mewn ffordd ystyrlon i her Brexit. Pwysleisiais hyn wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yng Nghyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid yr wythnos diwethaf. Nid yw'r atebion yr ydym wedi'u cael oddi wrth Lywodraeth y DU yn cynnig unrhyw sicrwydd y byddai'r cyllid y mae arnom ei angen ar gael.

#### Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Ar **lwyfan etholiad arweinyddiaeth y Ceidwadwyr yng Nghaerdydd** ar 6 Gorffennaf, gwnaeth Boris Johnson sylw ar ddisodli cronfeydd strwythurol ac Arloesi'r UE yng Nghymru. Cadarnhaodd y byddai Cymru yn cael yr un swm o arian ag y byddai gan yr UE, ond ychwanegodd y canlynol:

I would want to make sure that there was a strong Conservative influence on the expenditure of that £350m [per year], or whatever the sum is, to ensure that it delivered taxpayer value.

Ymatebodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog, i sylwadau Johnson mewn **sesiwn graffu** ar y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**. Croesawodd gadarnhad yr arian ond, mewn ymateb i honiad Johnson o ddylanwad Ceidwadol, dywedodd y canlynol:

These are powers that have been devolved to the National Assembly for 20 years. So, Mr Johnson's assertion could only mean a reduction in devolved competence.

Ar 8 Gorffennaf, **awgrymodd y Prif Weinidog** ei fod yn credu ei bod yn bosibl cytuno ar ddibenion a pharamedrau eang y gronfa ar y cyd â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Ond, dywedodd na ddylai Llywodraeth y DU fod yn y sefyllfa o benderfynu a oedd gweinyddiaethau wedi defnyddio'r cronfeydd yn unol ag egwyddorion y cytunwyd arnynt. Yn ddiweddarach, **dywedodd** Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, wrth y Cynulliad y byddai'n 'warthus' i'r Gronfa Ffyniant Cyffredin gael ei gweinyddu gan San Steffan neu Lywodraeth Leol (gan osgoi'r Gweinyddiaethau Datganoledig).

### Dyfodol Buddsoddiad Rhanbarthol

Ar 18 Gorffennaf, cyhoeddodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit **ddatganiad ysgrifenedig** ar fuddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, gan nodi'r diffyg eglurder ar y sefyllfa o ran cyllido ar ôl Brexit gan Lywodraeth y DU. Amlygodd y datganiad 4 maes blaenoriaeth ar gyfer rhagor o waith datblygu (lleihau anghydraddoldeb incwm, busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol, newid i economi di-garbon a chymunedau iachach a mwy cynaliadwy).

### Cysylltiadau rhynglywodraethol

Tynnodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, sylw at bwysigrwydd cysylltiadau rhynglywodraethol. Mewn **datganiad ar 15 Gorffennaf**, nododd sefydlu dau grŵp pedairochrog gyda Gweinidogion y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill sy'n canolbwyntio ar fusnes a diwydiant ac ynni a newid hinsawdd.

Mewn **llythyr ar y cyd, dyddiedig 3 Gorffennaf**, beirniadodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ddiffyg cynnydd ar ddiwygio rhynglywodraethol a galw am gyfarfod cynnar Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ar ôl ethol Prif Weinidog newydd y DU. Cyhoeddodd y Prif Weinidog **ddatganiad ysgrifenedig** ar 28 Awst ar ddyfodol y DU, lle y dywedodd ei fod yn credu bod gwell dyfodol i Gymru drwy fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gyson dros wneud newidiadau i'r setliad dros yr 20 mlynedd diwethaf er mwyn cryfhau'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a'r Undeb. Aeth ymlaen i ddweud mai ei fwriad yw:

[g]weithio'n galetach i greu, llunio a ffurfio Undeb sy'n ddigon cryf i allu gwrthsefyll y pwysau presennol o ganlyniad i Brexit, yn ogystal â bod yn Undeb sy'n gweithio'n galetach i adlewyrchu buddiannau pob gwlad gyfansoddol, lle mae gan bob aelod o'r teulu le yn y broses o wneud penderfyniadau.

Yn y datganiad, dywedodd y Prif Weinidog hefyd ei fod wedi gofyn i Alun Davies AC arwain prosiect a llunio adroddiad ar ddyfodol y DU ar ôl Brexit.

Yn ystod dadl y Cynulliad ar **Brexit ac addoedi Senedd y DU** ar 5 Medi, diweddarodd y Prif Weinidog yr Aelodau ar gysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU:

rwyf am ddweud ar lawr y Cynulliad, Lywydd, nad yw'r Llywodraeth hon erioed wedi colli cyfle i fod yn yr un ystafell â'r Llywodraeth Geidwadol a fu gennym ers 2017. Er bod y rheini'n aml yn achlysuron anghyfforddus iawn lle byddwn yn trafod gyda phobl rydym yn anghytuno'n sylfaenol â hwy, nid ydym erioed wedi methu cyfle i fod yno, i geisio bod yn ddylanwadol, i siarad dros Gymru.

Ond ers ethol Mr Johnson, rydym wedi cael ein cau allan o'r trafodaethau hynny. O dan ei ragflaenydd, yr anghytunwn yn llwyr â hi, cawsom ein gwahodd i gyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau Ewropeaidd. Mynychasom is-bwyllgor o'r Cabinet ei hun. Ers i uwch gynghrair Boris Johnson ddechrau, mae'r cyfleoedd hynny wedi diflannu. Roeddem i fod i fynychu cyfarfod ddydd Gwener yr wythnos hon, ond mae'r gwahoddiad hwnnw wedi'i dynnu'n ôl. Ni allwch ddylanwadu ar Lywodraeth nad oes ganddi unrhyw awydd i drafod gyda ni.

Y diwrnod blaenorol, gofynnwyd i **Alun Cairns, Ysgrifennydd Gwladol Cymru**, roi sicrwydd bod Llywodraeth y DU wedi gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod y DU gyfan yn barod i adael yr UE. Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol y canlynol wrth Dŷ'r Cyffredin:

The devolved Administrations are invited to the exit planning committees that the UK Government hold. They are fully aware of the proactive, positive steps and measures that we have introduced in preparation for leaving the European Union. I am only disappointed that the same courtesy and invitation have not been extended by the Scottish and Welsh Governments, which would allow and give us the same confidence.

### Rhyngwladol

#### Ymgynghoriad Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru

Ar 31 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth Ryngwladol ddrafft** ar gyfer ymgynghoriad, gan nodi ei blaenoriaethau a'i nodau ar ôl Brexit. Mae wedi dweud bod y newid sylweddol yn y dirwedd ryngwladol a achosir gan Brexit yn golygu ei bod yn amser gosod gweledigaeth ryngwladol newydd ar gyfer Cymru.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn pedwar cwestiwn ar nodau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, a bydd yn dod i ben ar 23 Hydref. Mae Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol **wedi nodi y** bydd angen i'r strategaeth derfynol fod â digon o hyblygrwydd i ymateb i ba bynnag senario Brexit a ddaw. Mae gan y strategaeth ddrafft dri nod allweddol:

- Codi proffil rhyngwladol Cymru;
- Cynyddu allforion a mewnfuddsoddiad; ac
- Arddangos Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch **erthygl blog y Gwasanaeth Ymchwil** ar y strategaeth.

### Cytundebau Rhyngwladol

Yn ystod **sesiwn dystiolaeth ar 8 Gorffennaf**, pwysleisiodd y Prif Weinidog yr angen i'r gweinyddiaethau datganoledig fod yn rhan o ddatblygu mandad negodi'r DU ar gyfer cytundebau rhyngwladol, gan y gallai llawer ohonynt gael eu gweithredu mewn cymwyseddau datganoledig:

*The Welsh Government understands that if you are going to be part of those early discussions, then there will be compromises in the mandate and you have to be bound by those compromises, because you have been part of shaping them.*

Yn ystod **cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn** ar 10 Gorffennaf, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit y safbwynt hwn:

*Ile mae Llywodraeth y DU yn llunio safbwynt negodi ar gyfer negodiadau rhyngwladol o ba fath bynnag, ni ddylent fwrw ymlaen â'r mandad negodi hwnnw fel arfer oni bai eu bod wedi sicrhau cytundeb y gweinyddiaethau datganoledig, lle yr effeithir yn uniongyrchol ar gymwyseddau datganoledig, neu, lle y gellir effeithio arnynt yn anuniongyrchol, dylem fod yn rhan o'r trafodaethau hynny.*

*Ymddengys i ni fod hwnnw'n gais sylfaenol resymol, ac yn rôl briodol i Lywodraeth Cymru yn y trafodaethau hynny. Ni allwn ddisgwyl, ac ni ellir disgwyl i unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig, gydweithredu yn y ffordd y gweithredir y rhwymedigaethau rhyngwladol hynny os na fyddwn wedi cael llais yn y broses o lunio'r safbwyntiau hynny ar y dechrau.*

Atgoffodd y Cynulliad fod yr Undeb Ewropeaidd yn ymwybodol pa feysydd sydd wedi'u datganoli felly, pe bai Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen heb gytundeb y gweinyddiaethau datganoledig, byddai'n niweidio ei hygredded mewn negodiadau. Wrth gloi, cadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru 'yn gwrthod gweithredu' unrhyw gytundeb i breifateiddio'r GIG yng Nghymru.

Ar 9 Gorffennaf, **ymatebodd Llywodraeth y DU i** adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar **waith craffu seneddol ar gytuniadau**. Mae'r ymateb yn ymdrin â nifer o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â rôl y gwledydd datganoledig mewn cytundebau rhyngwladol.

### Dinasyddion yr UE

Ar 9 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad i'r wasg** yn nodi pecyn cymorth i ddinasyddion yr UE yng Nghymru sy'n paratoui at Brexit. Mae'r pecyn yn cynnwys y canlynol:

- Cymorth gyda cheisiadau i Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion Llywodraeth y DU.
- Cyngor ar les cymdeithasol a hawliau gweithle drwy rwydwaith Cyngor ar Bopeth.
- Cymorth arbenigol ar gyfer achosion mewnfudo cymhleth gan Newfields Law.
- Mwy o ddarpariaeth o ganolfannau cymorth digidol yng Nghymru.
- Codi ymwybyddiaeth o'r angen i wneud cais am statws preswyllydd sefydlog mewn cymunedau anodd eu cyrraedd ac agored i niwed.
- Byddai gwefan newydd yn cael ei lansio i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael yn y pecyn.

Ar 16 Gorffennaf, **dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cynulliad** fod:

*gwasanaethau cyhoeddus a phrifysgolion yng Nghymru yn dibynnu ar ein gallu i recriwtio pobl o rannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd [...] i ddod i wneud eu dyfodol yma yng Nghymru. Nid yn unig y bydd Brexit yn rhwystr i hynny, ond bydd y polisïau y mae ei Lywodraeth ef yn ei dilyn o ran ymfudo yn gwneud yr anawsterau hynny yn fwy fyth [...].*

### Fframweithiau Cyffredin

Cyhoeddwyd y **pedwerydd adroddiad** ar Fframweithiau Cyffredin ar 17 Gorffennaf. Yn ystod yr wythnos flaenorol, atebodd Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, **gwestiynau yn y Cyfarfod Llawn**. Dywedodd y bu 'cynnydd da [...] ar fframweithiau, er yn arafach na'r disgwyl' oherwydd gwaith cynllunio dim cytundeb. **Cyhoeddodd** Llywodraeth y DU bedair dogfen ar 3 Gorffennaf, gan gynnwys adroddiad cynnydd, fframwaith amlinellol a chyfres o egwyddorion drafft. Mae mwy o wybodaeth am waith y Cynulliad ar Fframweithiau Cyffredin ar gael ar **wefan y Cynulliad**.



## Parodrwydd dim cytundeb

Ar 16 Gorffennaf, yn y Cyfarfod Llawn, darparodd Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, **ddatganiad ar barodrwydd Brexit**. Rhybuddiodd am effaith 'drychinebus' Brexit heb gytundeb, gan esbonio'r canlynol:

Dylai'r rhestr o fusnesau sy'n mynegi pryderon difrifol ynghylch gadael heb gytundeb sobri unrhyw un.

Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y canlynol:

- adolygu sut y bydd paratoadau i ymadael yn yr hydref yn wahanol i'r rhai a wnaed i ymadael ym mis Ebrill. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod ymhellach â sectorau perthnasol i ganolbwyntio ar faterion megis lle mewn warysau, symud nwyddau a chludo nwyddau;
- nodi pum cam gweithredu y gall busnesau eu cymryd i liniaru effaith dim cytundeb: (i) dylai mewnforwyr ac allforwyr gael rhif cofrestru ac adnabod gweithredwr economaidd; (ii) rhaid i'r data personol a drosglwyddir i'r DU barhau i gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data; (iii) dylai cyflogwyr dinasyddion yr UE eu hannog i wneud cais i aros yng Nghymru drwy'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE; (iv) dylai gweithgynhyrchwyr wirio gofynion rheoleiddiol marchnadoedd y DU a'r UE ar gyfer labelu, cymeradwyo a phrofi; (v) mynd i Borth Brexit Busnes Cymru i asesu eu parodrwydd a chael cyngor arbenigol.
- trafod cynyddu capasiti Banc Datblygu Cymru i gynghori a chefnogi mwy o fusnesau.
- dyrannwyd £35 - 36 miliwn o Gronfa Bontio'r UE gwerth £50 miliwn, a ddyluniwyd i gefnogi busnesau drwy Brexit.

Ar 31 Gorffennaf, **cyhoeddodd** Llywodraeth y DU £2.1 biliwn ar gyfer gwaith cynllunio dim cytundeb, gydag £1.1 biliwn yn cael ei ddarparu i adrannau a'r gweinyddiaethau datganoledig ar unwaith, ac £1 biliwn arall ar gael, pe bai ei angen. Mewn ymateb, **dyfynnodd y BBC** lefarydd ar ran Llywodraeth Cymru yn dweud y canlynol:

The Prime Minister was left in no doubt on his visit to South Wales about the catastrophic impact Brexit will have on Wales. This latest funding proposed by the Treasury will not come anywhere near compensating for the devastation such a flippant 'do or die' approach to Brexit will cause to communities and industries throughout Wales. It is also unnecessary - the UK Government is proposing spending more than £2bn on something the prime minister is telling us the chances of happening are 'vanishingly small'.

Yn y **Cyfarfod Llawn ar 5 Medi**, dywedodd y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar baratoadau ar gyfer 'dim cytundeb'.

## Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor ar flaenoriaethau Brexit

Ar 17 Gorffennaf, darparodd David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor **Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** (MADY), **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn** ar flaenoriaethau Brexit ar gyfer y misoedd nesaf. Amlinellodd y Cadeirydd y tair prif flaenoriaeth Brexit i Gymru fel a ganlyn:

1. paratoi ar gyfer Brexit
2. y risg i ddatganoli a dyfodol yr undeb, yn enwedig mewn perthynas â gwaith craffu'r Cynulliad ar drefniadau o'r fath;
3. effaith Brexit ar wladolion yr UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru. Cyhoeddodd y Cadeirydd lansiad ymgynghoriad i oblygiadau Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar ddyfodol rheolau mewnfudo ar ôl Brexit.

## 5. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

### Fforwm Rhyngseneddol

Cyfarfu'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit ar 5 Medi i graffu ar faterion sy'n ymwneud â Brexit. Trafododd y Fforwm rôl craffu sefydliadau'r DU a sefydliadau datganoledig mewn negodiadau cytuniad rhyngwladol a **chytunodd ar nifer o gamau gweithredu.**